**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Llanfyllin

**Ysgol Gynradd Llanfyllin**
**High Street**
**Llanfyllin**
**Powys**
**SY22 5BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanfyllin

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanfyllin |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Margaret Williams |
| Person â gofal | Catrin Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2.5 - 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 11 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Mawrth 9 - 3<br>Dydd Iau 12:30 - 3<br>Dydd Gwener 9 - 3 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/03/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Rhoi gwell profiadau cydraddoldeb a ddiwylliannol i blant.

A2 Creu gwell cyfleoedd i blant symud yn annibynnol rhwng yr amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau pwrpasol. Maent yn hyderus wrth ddewis adnoddau ac yn gyfforddus i symud o un ardal dysgu a chwarae i'r llall. Mae plant yn chwarae gyda bwydydd go iawn ac yn torri a phlicio llysiau yn hyderus. Dewis eraill yw chwarae yn yr ardal tywod neu gyda'r deinosoriaid a'r ceir. Mae bron pob plentyn yn mynegi eu hunain yn eglur gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion priodol. Er enghraifft, maent yn dangos i'r ymarferwyr ble roeddent eisiau chwarae ac yn dewis eu hoff bethau yn hyderus. Dewisa’r plant eu diodydd a’u hoff fwydydd yn frwdfrydig adeg byrbryd. Mynega’r plant eu hunain yn gadarn gan eu bod yn cael eu clywed gan ymarferwyr.

Mae bron pob plentyn yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth rieni a gofalwyr. Maent yn gwenu wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae bron pob plentyn yn teimlo'n fodlon ac yn ddiogel. Maent yn Iestyn am hances pan fo angen ac yn mynd i olchi eu dwylo ar ôl peintio. Mae plant yn ffurfio perthynas agos a chadarnhaol gyda'r ymarferwyr ac yn mynd pan fyddant wedi brifo i dderbyn cysur. Mae plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn gwenu’n hapus wrth dderbyn clod am fod yn garedig wrth ei gilydd neu ganu yn dda.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda, gyda’r rhan fwyaf yn rhannu'r adnoddau yn gyson. Er enghraifft, mae plant yn rhannu offer peintio yn yr ardal grefft ac eraill yn rhannu cerbydau wrth ollwng y ceir i lawr y rampiau. Mae plant yn parchu eraill ac yn sensitif i deimladau eraill. Maent yn cyfarch ei gilydd wrth cyrraedd y lleoliad ac yn dangos pryder wrth weld eu ffrindiau wedi brifo ar ôl syrthio.

Mae bron pob plentyn yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu cyfleoedd dysgu. Maent yn gyffrous wrth archwilio eu hardaloedd dysgu a chwarae. Maent yn cymryd rhan mewn cyfleoedd gwneud marciau a gwneud llinellau ar y byrddau golau yn hyderus. Mae llawer o blant yn cynnal diddordeb a chanolbwyntio ar dasgau am amser priodol. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn llwyddianus, er enghraifft, wrth aros eu tro i olchi dwylo neu wrth ymateb i’r gân "dewch i eistedd ar y mat". Mae plant yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad wrth gwblhau eu tasgau, fel adeiladu roced gyda'r blociau drwy weiddi "Look! This is my rocket!".

Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu galluoedd annibynnol priodol yn dda yn ôl eu hoedran a'u cam datblygu. Mae llawer o blant yn arllwys eu llaeth eu hunain yn annibynnol. Wrth gyrraedd y lleoliad mae rhan fwyaf o blant yn mynd ati yn syth i dynnu’u cotiau a’u bagiau ac yna rhoi eu llun ar y goeden yn annibynol. Mae mwyafrif y plant yn helpu i dacluso'r adnoddau ar ol gorffen chwarae.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn chwarae gyda’i gilydd yn bwrpasol ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn, sy’n effeithio’n llwyddiannus ar eu dysgu a’u medrau gwybyddol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud a gweithredu arnynt yn gynhyrchiol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth adeiladu strwythur gyda chratiau a silindrau i rolio peli o un pen i'r llall. Mae llawer yn cyfathrebu'n glir wrth ymateb i drafodaethau a rhannu syniadau. Mae'r lleiafrif yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystyrlon. Er enghraifft, maent yn disgrifio synau anifeiliaid y fferm yn synhwyrol, fel gweryru'r ceffyl. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn awyddus i gerddoriaeth ac maent yn canu'n frwd wrth stampio a neidio o gwmpas yr adeilad fel deinosoriaid.

Mae llawer o blant yn mwynhau trafod llyfrau ac maent yn ystyried eu cynnwys yn gall. Maent yn ymateb â diddordeb i storïau ac ystyried canlyniadau digwyddiadau'n feddylgar fel sylweddoli taw'r blaidd yw'r dihyryn yn helyntion y tri mochyn bach. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud marciau'n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent ac maent yn olrhain patrymau ar lechi electronig yn ddestlus. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu'n ystyrlon.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus ac mewn cyd-destunau cywir. Mae llawer yn cyfrif hyd at ddeg ac yn ôl i sero gyda chymorth oedolyn ac yn defnyddio arian yn ddigymell yn y siop i brynu llysiau. Maent yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn dda. Er enghraifft, maent yn didoli a threfnu blociau tri-dimensiwn yn ôl siâp a maint. Yn ogystal, maent yn arbrofi â chyfeintiau 'llawn' a 'gwag' yn bwrpasol trwy lenwi jygiau cyn tywallt dŵr i gafnau a dyfrhau cennin pedr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau TGCh effeithiol trwy ddefnyddio llechi a theganau electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda â'r dechnoleg, trwy ddefnyddio'r cyfarpar yn rheolaidd yn eu gweithgareddau dyddiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau, dawnsio a dringo ar gyfarpar anturus. Maent yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn adeiladu stabl a thwlc mochyn i gartrefu anifeiliaid a chreu patrymau diddorol gydag olwynion wrth rolio cerbydau trwy wahanol liwiau paent.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymaferwyr yn deall eu rolau yn dda ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gallu dweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai pryder ganddynt ynglŷn â phlentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae nifer digonol o'r ymarferwyr yn dal tystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn briodol ac yn rhannu'r rhain gyda rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod plant ac ymarferwyr yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym a diogel mewn argyfwng.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fwyta ac yfed yn effeithiol ac yn annog rhieni i ddanfon byrbrydau a chinio iach ar gyfer eu plant. Maent yn annog plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn cynllunio cyfleoedd i blant dreulio amser yn yr awyr agored. Mae gan ymarferwyr berthynas cadarnhaol gyda phlant. Er enghraifft,

maent yn siarad â'r plantmewn ffordd garedig a thawel ac yn darparu cysur a sicrwydd pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn deall y polisi ymddygiad yn dda ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol pan fo angen. Maent yn delio â dadleuon neu ymddygiad anaddas yn gadarnhaol. Er enghraifft, trwy ganmol plant yn gyson am ymddygiad dda ac ailgyfeirio plant at weithgaredd arall os oedd unrhyw anghytundebau bach. Mae'r ymarferwyr yn arddangos cwrteisi da drwy gydol y sesiwn.

Mae'r ymarferwyr yn brofiadol a chymwys ac o ganlyniad yn gofalu ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn effeithiol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod beth maent yn hoffii gwneud. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol plant cyn iddynt ddechrau.  O ganlyniad, gallant gynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Mae'r person â gofal yn sicrhau bod cynlluniau gweithgareddau manwl ar waith, sydd yn cynnwys amrywiaeth dda o dasgau i ddatblygu sgiliau plant. Mae tudalen cyfryngau cymdeithasol gaeedig yn cofnodi lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn dathlu eu llwyddiant.  Hyrwydda'r ymarferwyr ddatblygiad y plant yn yr iaith Gymraeg yn llwyddiannus drwy amryw o ganeuon gydag ystumiau ac amser stori. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o adnoddau sydd ar gael i ddatblygu ymwybyddiaeth o cydraddoldeb a ddiwylliannol y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn addysgu'n bwrpasol ac maent yn gweithredu'n frwdfrydig a chydwybodol er lles y plant. Maent yn darparu gweithgareddau diddorol a heriol i ddysgu trwy chwarae, fel sgrwbio llysiau cyn eu plicio a'u torri â chyllell. O ganlyniad, mae'r addysgu'n ennyn diddordebau'r plant yn fwriadus.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau, sy'n cynnig cyfleoedd effeithiol i'r plant ddysgu'n annibynnol. Yn ogystal, mae eu medrau addysgu yn cynnwys holi'r plant yn ddeallus, sy'n effeithio'n gadarn ar wella'u medrau gwybyddol a'u hawydd i fentro.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cyflawn ac yn cynllunio profiadau dysgu cadarnhaol ac amrywiol ar gyfer y plant, tu mewn i'r adeilad ac yn yr ardal allanol. Er enghraifft, mae cyfleoedd ar gael i ddatrys problemau trwy ddefnyddio cylchoedd pren a chregyn, â rhifau arnynt, i greu llwybrau rhif defnyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ysgogol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geirfa ac ymadroddion, a chanu hwiangerddi bywiog. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn cynnig heriau cyson i wella'u medrau digidol cynnar. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cymell iddynt i gydweithredu'n effeithiol trwy ganolbwyntio ar ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ludo cratiau i adeiladu tyrau 'tal', 'byr', 'llydan' a 'chul', a pheintio cennin pedr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol llwyddiannus ymysg y plant. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ystyried

eu teimladau personol a theimladau eu cyfoedion, trwy ymateb i luniau perthnasol ar lwyau pren. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy ddathlu diwrnodau Santes Dwynwen a ‘Dweud Shwmae’ a chanu rhigymau traddodiadol. Gwneir defnydd buddiol o’r dref, trwy ymweld â siopau fel y fferyllfa, a cherdded i’r blwch cyfagos i bostio llythyron. Mae’r cyfleoedd hyn yn dechrau creu ymwybyddiaeth glir i’r plant o’u hardal leol.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith.

Yn ystod y pandemig, mae’r lleoliad wedi cynnig cyfarfodydd i rieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu gwybodaeth am gyflawniadau eu plant yn effeithiol i rieni a gofalwyr dros gyfryngau cymdeithasol, yn adroddiadau blynyddol, ac ar lafar wrth ddrysau’r lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae plant yn derbyn gofal ac yn cael eu haddysgu mewn ystafell chwarae eang, a drefnir i hyrwyddo eu hannibyniaeth yn effeithiol ac s’yn annog sgiliau chwilfrydedd a datblygiadol. Trefnir yr ardaloedd mewnol i ddarparu ystod eang o gyfleoedd ysgogol, sy'n annog plant i symud o un gweithgaredd i'r nesaf yn effeithiol.

Mae'r cyfleusterau dan do yn cwrdd ag anghenion y plant, gan gynnwys ardaloedd darllen a mannau chwarae rôl yn ogystal â chyflenwad da o adnoddau naturiol. Mae ystod dda o adnoddau ym mhob ardal a phob un o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn lliwgar, yn groesawgar ac yn ddeniadol. Mae arddangosfeydd o themâu tymhorol, lliwiau, numicon, yr wyddor a dathlu dydd gwyl Ddewi yn ychwanegu at amgylchedd croesawgar.

Mae'r ardal tu allan yn hyrwyddo datblygiad y plant yn yr awyr agored. Mae'r plant yn mwynhau chwarae gyda nifer o adnoddau amrywiol. Er enghraifft, mwynhau gwylio dŵr yn rhedeg i lawr y pibellau ar gwahanol lefelau yn yr ardal dŵr. Mae eraill yn frwdfrydig iawn wrth olchi'r anifeiliaid budr yn y twba dŵr. Fodd bynag nid oes modd i'r plant dewis chwarae tu fewn neu tu allan o’u gwirfodd.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i ddiwallu anghenion diogelwch plant. Mae ganddynt ddrysau cloeedig ac mae'n ofynnol i ymwelwyr lofnodi yn brydlon wrth cyrraedd y lleoliad. Mae arweinwyr yn creu amgylchedd diogel ac addas ac yn sicrhau bod asesiadau risg dyddiol yn eu lle er mwyn lleihau risgiau diogelu posibl a risgiau traws-heintio. Mae driliau tân a gwiriadau cynnal a chadw yn eu lle. Mae cyfleusterau ymolchi a thoiledau yn addas ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas plant yn cael ei barchu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae’r unigolyn cyfrifol a’r ymddiriedolwyr cydwybodol yn sicrhau bod prosesau effeithlon yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar greu gwelliannau cyson i weithdrefnau’r lleoliad.

Mae’r unigolyn cyfrifol yn gweithio’n ddeallus gyda’r arweinydd a’r ymarferwyr diwyd i wella dysgu’r plant. Mae eu gweledigaeth gadarnhaol yn sicrhau darpariaeth

bwrpasol. Yn ogystal, maent yn cynnig cymorth bugeiliol gofalus fel cysuro unigolion yn deyrngar ar ôl iddynt gael niwed. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn cymell y plant i wneud eu gorau glas yn gyson, trwy heriau diddorol ac ysgogaeth cefnogol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cywrain yn effeithio'n llwyddiannus ar arferion y lleoliad. Maent yn canolbwyntio'n fanwl ar greu gwelliannau. O ganlyniad, mae'r polisïau ac athroniaeth dibynadwy yr arweinwyr yn creu cysondeb i waith y lleoliad, sy'n bodloni anghenion y plant yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n rhan o fywyd y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau ystyrlon gyda'r holl randdeiliaid, fel y rhieni, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ddoeth, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth am weithgareddau'r plant.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn dîm cytûn. Maent yn cydweithio'n ddyfal a gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r ymddiriedolwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan yr ymddiriedolwyr drefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad. Maent yn dilysu penderfyniadau'r unigolyn cyfrifol a'r arweinydd yn rheolaidd i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu fel gwella'r ddarparieth o brofiadau rhifedd yn yr ardaloedd dysgu.

Mae'r person cyfrifol a'r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn galluogi iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn fwriadus. Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn dda. O ganlyniad, mae agweddau penderfynol yr arweinwyr yn hyrwyddo profiadau cyffrous ac addysgiadol i'r plant. Gwneir hyn trwy gyllido adnoddau gwerthfawr, fel adnoddau adeiladu yn yr ardal allanol a chegin fwd.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau cadarn, fel siopau lleol a'r ysgol gyfagos, sydd yn cefnogi'r lleoliad trwy gynnig profiadau difyr i'r plant fel trafod swydd fferyllydd y dref. Mae'r berthynas gynhyrchiol gyda'r ysgol yn paratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2022